# CLWB MYNYDDA CYMRU

England & Wales · Charity number 1190243

## Details

| | |
|---|---|
| Status | Registered |
| Legal form | CIO |
| Registered | 2020-07-03 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | 37 Margaret Street<br>Caernarfon<br>LL55 1NB |
| Phone | 01690760335 |
| Email | ymholiadau@clwbmynyddacymru.com |
| Website | clwbmynydda.cymru |

## Activities

**Objects:** AMCAN Y SCE YW HYRWYDDO CHWARAEON AMATUR, SEF MYNYDDA, YNG NGHYMRU ER BUDD Y CYHOEDD, YN ARBENNIG OND NID YN UNIG TRWY DDARPARU CYFLEON AR GYFER MYNYDDA TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG.

**Activities:** Hyrwyddo mynydda yng Nghymru, trwy gyfrwng y Gymraeg, trwy ddarparu teithiau tywys

## Classification

- **How:** Provides Services
- **What:** Amateur Sport
- **Who:** The General Public/mankind

## Geography

- Throughout Wales

Downloaded from opencharities.uk/ew/1190243

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-09-30 | £22,964 | £24,403 | - | - |
| 2024-09-30 | £27,150 | £29,436 | - | - |
| 2023-09-30 | £14,680 | £10,110 | - | - |
| 2022-09-30 | £7,459 | £10,169 | - | - |
| 2021-09-30 | £8,134 | £12,546 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| Dewi Hughes | | 2012-11-17 |
| Dilys Ann Phillips | | 2017-11-04 |
| Dwynwen Pennant | | 2016-11-05 |
| Elen Huws | | 2021-11-13 |
| Erwyn Jones | | 2024-11-16 |
| Eurig Wyn James | | 2024-01-11 |
| Gethin Rhys Rowlands | | 2022-11-19 |
| Iolo Prys Roberts | | 2010-11-13 |
| Iolo ap Gwynn | | 2005-11-19 |
| Keith Roberts | | 2021-11-13 |
| Matthew Charles Williams | | 2024-11-16 |
| Richard Austin Roberts | | 2012-11-17 |
| Stephen Llechid Williams | | 2018-11-17 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1190243

# Accounts

# Clwb Mynydda Cymru

*Elusen gofrestredig rhif 1190243*

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2024 - 2025

## Cyfansoddiad ac Amcan

Mae Clwb Mynydda Cymru wedi ei sefydlu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ei amcan ydi hyrwyddo chwaraeon amatur, sef mynydda, yng Nghymru er budd y cyhoedd, yn arbennig ond nid yn unig trwy ddarparu cyfleon ar gyfer mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Elen Huws – Cadeirydd
Keith Roberts – Is-gadeirydd
Richard Roberts – Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dilys Phillips – Trysorydd
Gethin Rowlands– aelod o'r pwyllgor
Eurig James – aelod o'r pwyllgor
Dewi Hughes – aelod o'r pwyllgor
Dwynwen Pennant – aelod o'r pwyllgor
Stephen Williams – aelod o'r pwyllgor
Matthew Williams – aelod o'r pwyllgor
Erwyn Jones – aelod o'r pwyllgor

## Llywodraethu

Yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Pwyllgor sy'n rheoli gweithgareddau'r Clwb.

Cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ac fe gynhaliwyd un cyfarfod brys ym mis Hydref, i gyd drwy gyfrwng Zoom. Mae'r drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal ein cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac mae'n caniatáu i aelodau sy'n byw ym mhob rhan o Gymru ymuno â'r cyfarfodydd yn eitha rhwydd. Gan mai un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb, ceir diweddariad gan y Trysorydd ym mhob

cyfarfod a bydd y Trysorydd hefyd yn cyflwyno adroddiad am sefyllfa ariannol y Clwb a mantolen i'r Cyfarfod Blynyddol.

Hefyd mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhoi sylw i'r materion canlynol yn ystod y flwyddyn.

1. Taliadau i 'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP)

Gan fod y taliad a wneir gan y Clwb i'r CMP bellach yn £29.33 ar gyfer pob aelod, a thâl aelodaeth presennol y Clwb yn £25, nid yw'r sefyllfa yn gynaliadwy ac roedd dealltwriaeth y byddai'n rhaid i'r Clwb ystyried y tâl aelodaeth ar gyfer 2026. Gan fod hyn ar y gweill, a gan mai derbyn yswiriant drwy fod yn aelod o'r CMP yw un o brif ddibenion ymaelodi, fe benderfynodd y Pwyllgor yng nghyfarfod Ionawr y dylid gwneud ymholiadau gyda chlybiau mynydda eraill i weld a oes ffynonellau eraill o yswiriant y gellid eu hystyried.

Wedi gwneud ymholiadau daeth yn amlwg mai CMP yw'r unig gorff sy'n cynnig yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau mynydda. Yn sgil hyn fe benderfynodd y Pwyllgor ym mis Mai fel a ganlyn:

*i. ei bod yn bwysig bod y Clwb yn trefnu yswiriant ar gyfer yr aelodau ac ymddengys mai'r CMP yn unig sy'n darparu yswiriant addas ar gyfer gweithgareddau mynydda*
*ii. bod gwerth hefyd i'r Clwb fod â llais mewn corff sydd a rôl bwysig parthed gweithgareddau mynydda yng Nghymru a thu hwnt*
*iii. os bydd y CMP heb gyhoeddi pris eu tanysgrifiadau ar gyfer aelodau clybiau erbyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi y dylid cynnal cyfarfod brys rhywbryd ym mis Hydref fel y gellir gwneud argymhelliad ar dâl aelodaeth 2026 i'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd.*

Cafwyd gwybod yn niwedd Medi mai £30.74 fydd y tanysgrifiad i'r CMP yn 2026 ac fe gafwyd cyfarfod brys o'r Pwyllgor ar 15fed Hydref, 2025. Cytunwyd argymell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid codi'r tâl aelodaeth ar gyfer 2026 i £35.

2. Archif

Mae trefniadau ar y gweill i drosglwyddo nifer o hen ddogfennau yn ymwneud â sefydlu'r Clwb, nifer ohonynt wedi cael eu harddangos yn stondin y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 2019, i'r Llyfrgell Genedlaethol i'w cadw. Cytunwyd y byddai Stephen Williams a Dilys Phillips yn mynd drwy'r dogfennau i weld os oes angen sganio rhai ohonynt y gellid eu harddangos pan fydd y Clwb yn dathlu ei haner canmlwyddiant yn 2029.

3. Polisïau'r Clwb

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y bydd yn edrych ar bolisïau'r Clwb yn achlysurol i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion ac yn gyfredol. Hyd yma mae'r Pwyllgor wedi taro golwg dros y polisïau canlynol a'u hadolygu:

Polisi Asesu Risg
Canllawiau Teithiau Preswyl
Polisi Preifatrwydd
Canllawiau Arweinwyr Teithiau

Mae'r polisïau yma i gyd i'w gweld ar wefan y Clwb o dan y pennawd "Beth yw'r Clwb"

4. Llochesi

'Roedd y Pwyllgor eisoes wedi penderfynu y dylai arweinyddion taith gario diffibrilydd ar bob taith. Penderfynwyd y dylid hefyd gario lloches os ydi'r arweinydd yn teimlo bod hynny'n addas ar gyfer y daith.

5. Enwi Dringfeydd

Yn y cyfarfod ym mis Medi cafwyd gwybod gan Stephen Williams am y drafodaeth yn y CMP ynglŷn â'r defnydd o enwau Cymraeg a Saesneg yn y byd dringo. Ar ôl ystyried y mater fe benderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

*i. nodi gwrthwynebiad cryf a llwyr y Clwb i unrhyw ddefnydd o enwau Saesneg ar nodweddion tirluniau Cymru sydd ag enwau Cymraeg cynhenid arnynt a bod hyn yn cynnwys unrhyw ymgyrch i ail-enwi ponciau yn chwarel Llanberis sydd eisoes ag enwau Cymraeg cynhenid arnynt*
*ii. gyda dringfeydd, nodi fod y sefyllfa yn wahanol. Gan fod dringfa wedi ei datblygu gan ddringwr/wyr unigol eu bod wedyn yn rhoi enw o'u dewis ar y ddringfa berthnasol.*

6. Eisteddfod Genedlaethol

Wrth gwrs mae'n dasg flynyddol i'r Pwyllgor wneud trefniadau ar gyfer gweithgareddau'r Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Wrecsam eleni ac fe draddododd Paula Roberts Ddarlith Goffa Llew Gwent ar "Newid Hinsawdd a Mynyddoedd Cymru". Hefyd fe gynhaliwyd Taith Goffa Gareth Pierce yn ystod yr wythnos pan gafwyd criw sylweddol o 35 o aelodau yn ymuno â Richard Roberts ar daith i Gastell Dinas Brân a'r cyffiniau.

Mae'r Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i Paula a Richard am eu cyfraniad ac i'r aelodau hynny a fu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi dechrau ystyried trefniadau ar gyfer Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol i'w gweld ar wefan y Clwb, gweler y ddolen isod:

http://www.clwbmynyddacymru.com/Dogfennau.htm

**Recriwtio ymddiriedolwyr**

Y Cyfarfod Blynyddol sydd yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ac felly'n penodi'r ymddiriedolwyr. Yn ôl y cyfansoddiad mae traean o aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf. Mae'n agored i unrhyw aelod gynnig gwasanaethu ar y Pwyllgor drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyn y Cyfarfod Blynyddol.

Yng Nghyfarfod Blynyddol 2024 bu i Sioned Llewelyn Jones a Raymond Griffiths adael y pwyllgor a chafodd Erwyn Jones a Matthew Williams eu hethol yn eu lle. Yn ogystal daeth cyfnod Stephen Williams fel Cadeirydd i ben a chymerodd Elen Huws y swydd o Gadeirydd gyda Keith Roberts yn dod yn Is-gadeirydd.

**Gweithgareddau**

1. <u>Teithiau mynydda</u>

Trefnwyd cyfanswm o 62 o deithiau. Mae her y teithiau'n amrywio o'r gwyn i'r du gan gynnwys ambell 'epic'. Diolch yn fawr iawn i'r aelodau hynny a gytunodd i'w harwain.

Dyma ddadansoddiad:

- Trefnwyd 11 o deithiau du; 15 o rai coch; 26 o rai gwyrdd; 4 felen; 2 wen a gohiriwyd 4 oherwydd tywydd garw.
- Ar gyfartaledd, mae 13 o gerddwyr/mynyddwyr ar bob taith. Y nifer isaf ar daith eleni oedd 3 a 37 oedd y nifer uchaf.
- Cynhaliwyd taith flasu - Pedol Marchlyn - dan arweiniad Stephen Williams a bu i rai o'r blaswyr ymaelodi â'r Clwb yn sgil y profiad.

<u>2. Partneriaethau</u>

Mae'r Clwb yn cydweithio â nifer o fudiadau eraill.

- *Y Bartneriaeth Awyr Agored* - mae cymorth ariannol i fynychu cyrsiau'n dal ar gael a chysylltwyd â'r aelodau i roi gwybod iddyn nhw am hynny.
- *Yr Urdd* - defnyddiwyd peth o arian y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed yng Ngwersyll Glanllyn yn 2024. Mae'r arian hwnnw bellach wedi dod i ben ond mae'r Urdd wedi penderfynu parhau i gynnig y cwrs. Mynychodd 17 o bobl ifanc y cwrs eleni.
- *Eisteddfod Genedlaethol* - traddodwyd y ddarlith flynyddol yn yr Eisteddfod gan Dr. Paula Roberts, Llanberis ac mae Dwynwen Pennant wedi cytuno i ddarparu'r ddarlith yn Eisteddfod y Garreg Las yn 2026.
- *Y Cyngor Mynydda Prydeinig (BMC)* - Mae pob aelod o'r Clwb yn aelod o'r BMC.

3. Teithiau preswyl

Trefnwyd 3 taith breswyl yn ystod y flwyddyn.

- Taith aeaf i Crianlarich. Roedd 17 o aelodau ar y daith yma yn heulwen yr Alban.
- Taith haf i'r Cairngorms. Mwynhaodd 19 o aelodau dywydd hafaidd yn ystod mis Mai.
- Taith i Fannau Brycheiniog. Aeth criw o'r gogledd i lawr i'r Bannau a chawsant gwmni croesawgar criw'r de ar eu teithiau mynydda.

Cynhelir taith i Crianlarich ar 7-14 Mawrth 2026 a thaith i Ullapool ym mis Mai 2026.

Diolch yn fawr i Keith Roberts am drefnu'r teithiau hyn.

**Cyfathrebu a chysylltu**

1. Gwefan

Cyhoeddir y rhaglen gweithgareddau a hanesion am bob gweithgaredd, ynghyd â Newyddion, ar ein gwefan. Wrth dagio @Clwb Mynydda Cymru pan yn negesu ar y gwefannau cymdeithasol, dilyn ein cyfrif Gweplyfr/Facebook a hoffi a/neu rannu'r hanesion ag eraill mae gweithgareddau'r clwb yn cael hysbysrwydd rhad am ddim.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion bron i 60 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â'r lluniau cyferbyniol ar Flickr. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook cysylltiedig yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf, am pa reswm bynnag!

Mae'r wefan yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â phob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau iOS ac Android, ar gael drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan [http://www.clwbmynyddacymru.com/Cysylltu.html] ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan. Dim ond drwy ddilyn y cyfarwyddiadau hyn y gellir gosod yr 'ap', ni ellir cael hwn drwy adnoddau fel Playstore ayyb.

Diolch i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Mae tudalen Newyddion ar y wefan hefyd a chroeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau at Ysgrifennydd y Wefan. Adroddwyd am nifer o faterion yno yn ystod y flwyddyn.

Ers Tachwedd 2024, defnyddiwyd y wefan bron i 4 mil o weithiau (266 o ddefnyddwyr rheolaidd o'r DG, 1 o Sbaen, 1 o Wlad Groeg ac 1 o Nepal). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn.

2. Y Gweplyfr / Facebook

Yn ystod y flwyddyn cafwyd dros 170,000 o ymweliadau â'r dudalen. Y diwrnod prysuraf oedd 9 Mehefin, gyda dros 4,000 o ymweliadau!

3. Flickr

Bellach, mae 14,289 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau ers 2005, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr, pob taith gyda'i albwm ei hunan. Gall aelodau lawrlwytho unrhyw un o rhain ar gyfer defnydd personol. Hyd yma cafwyd 929,382 o ymweliadau â'n safle.

Diolch hefyd i'r rhai sy'n gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac Instagram.

Mae'r wefan yn gofnod allweddol o weithgareddau'r clwb dros y blynyddoedd. Daliwch ati i gefnogi ein gwefan a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Mae'n bwysig lledaenu'r wybodaeth am weithgareddau'r clwb yn y dulliau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu ac yn ffordd da i ddenu aelodau newydd.

**Cyllid**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon am 2024/25, sy'n crynhoi holl incwm a gwariant y Clwb ac yn dangos faint o arian sydd mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn, ar gael ar y wefan.

1. Aelodaeth

'Roedd gan y Clwb 275 o aelodau yn talu £25 y pen o dâl aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Daeth hyn ag incwm o £6,880 (gydag un aelod wedi gordalu o £5). Yn ogystal 'roedd yna nifer o "garedigion". Unigolion ydi'r rhain sydd wedi bod yn aelodau yn y gorffennol ond heb gynyddu (na dileu) eu harchebion banc ac o'r herwydd sydd ddim mwyach yn gymwys i'w hystyried yn aelodau o'r Clwb. O'r rhain 'roedd 21 yn talu £20, 21 yn talu £15 a 6 yn talu symiau llai gan roi cyfanswm incwm o £788.

Mae'r Clwb yn perthyn i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP), sy'n darparu yswiriant ar gyfer y gweithgareddau. 'Roedd cost ymaelodi â'r CMP yn £29.33 y pen (gyda rhywfaint o ostyngiad yn ystod ail hanner y flwyddyn). Mae hyn yn gynnydd o 23% ar y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm y taliad i'r CMP oedd £8007.10.

2. Cinio blynyddol

Derbyniwyd £990 at ginio blynyddol 2024 yn yr Oakeley Arms, Maentwrog a thalwyd £1,116.25. Gan fod rhywfaint o daliadau am y cinio wedi dod i law a blaendal wedi ei dalu, yn y flwyddyn ariannol flaenorol, gwir gost y cinio i'r clwb oedd £73.75. Mae hyn yn cynrychioli rhan o gost llogi ystafelloedd i aelodau newid ynddynt ar ôl taith.

3. Teithiau

Talwyd am ddwy daith breswyl yn ystod y flwyddyn - i Grianlarich mis Mawrth ac i Aviemore mis Mai. ‘Roedd cyfanswm y derbyniadau ar gyfer y teithiau yn £14,175 a’r gwariant yn £13,596.53. Diolch i drefnydd y teithiau am sicrhau nad ydynt yn gwneud colled.

4. Incwm arall

Yr unig incwm arall oedd llog banc o £131.21

5. Gwariant arall

‘Roedd y gwariant yn cynnwys y costau rhedeg arferol yn ymwneud â bancio, gweinyddiaeth, y wefan, y ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac aelodaeth o’r Bartneriaeth Awyr Agored. Hefyd gwnaed taliad o £360 allan o Gronfa Goffa Gareth Pierce am benwythnos i bobl ifanc yng Nglan Llyn. Mae hyn yn dod â’r gronfa i ben. Bu raid gwario ar fatri a phadiau newydd i'r ddau ddiffibrilydd; bydd y gwariant yma yn digwydd bob rhyw 3 blynedd. Daeth cyfanswm y gwariant am y flwyddyn i £1,683.56.

6. Cronfeydd

Ar ddiwedd y flwyddyn ‘roedd gan y Clwb £5,738.26 yn y coffrau. Fel a ragwelwyd yn adroddiad y llynedd mae hyn ostyngiad sylweddol ar y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i benderfyniad y CMP i gynyddu’r ffi aelodaeth, ond mae’r sefyllfa’n parhau’n foddhaol.

Mae’r Clwb angen cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy’n mynychu) ac hefyd er mwyn gwarchod yn erbyn gwariant annisgwyl. Credir fod swm o £5,000 yn ddigonol ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Gan bod angen i’r arian fod ar gael ar fyr rybudd mae’n cael ei gadw mewn cyfrif cadw yn y banc yn hytrach na’i fuddsoddi am dymor hirach.

Elen Huws
Cadeirydd

(ar ran yr ymddiriedolwyr)

Dyddiad: 15/11/25

**CLWB MYNYDDA CYMRU - adroddiad ariannol 2024/25**
*(Elusen gofrestredig rhif 1190243)*

| **Derbyniadau** | | £ | £ | *(2023/24)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | Aelodau | 6,880.00 | | |
| | Caredigion | 788.00 | | |
| | | | 7,668.00 | *7,530.00* |
| Cinio blynyddol 2024 | | | 990.00 | *705.00* |
| Teithiau: | | | | |
| | Crianlarich | 8,575.50 | | |
| | Aviemore | 5,600.00 | | |
| | | | 14,175.50 | *18,723.00* |
| Incwm arall: | Llog banc | | 131.21 | *612.36* |
| | *Rhoddion* | | | *30.00* |
| Mewn llaw 1 Hydref 2024: | | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 433.42 | | |
| | Cyfrif cadw | 6,743.57 | | |
| | | | 7,176.99 | *9,463.24* |
| | | | 30,141.70 | *36.613.60* |

| **Taliadau** | | £ | £ | *(2023/24)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | | | | |
| | Cyngor Mynydda Prydeinig | | 8,007.10 | *6,225.95* |
| Cinio blynyddol 2024 | | | 1,116.25 | *1,197.50* |
| Teithiau: | | | | |
| | Crianlarich | 8,329.00 | | |
| | Aviemore | 5,267.53 | | |
| | | | 13,596.53 | *20,657.00* |
| Gwariant arall: | Costau banc | 50.40 | | |
| | Gweinyddol | 334.33 | | |
| | Gwefan | 318.35 | | |
| | Eisteddfod 2025 (darlith) | 100.00 | | |
| | Partneriaeth Awyr Agored | 150.00 | | |
| | Penwythnos coffa Gareth Pierce | 360.00 | | |
| | Cynnal y diffibrilyddion | 370.48 | | |
| | | | 1,683.56 | *1,356.16* |
| Mewn llaw 30 Medi 2025: | | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 363.48 | | |
| | Cyfrif cadw | 5,374.78 | | |
| | | | 5,738.26 | *7,176.99* |
| | | | 30,141.70 | *36,613.60* |

Dilys Phillips
Trysorydd 27/10/25

George Jones
Archwiliwr 27/10/25

# Accounts

# Clwb Mynydda Cymru

*Elusen gofrestredig rhif 1190243*

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2023 - 2024

## Cyfansoddiad ac Amcan

Mae Clwb Mynydda Cymru wedi ei sefydlu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ei amcan ydi hyrwyddo chwaraeon amatur, sef mynydda, yng Nghymru er budd y cyhoedd, yn arbennig ond nid yn unig trwy ddarparu cyfleon ar gyfer mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Stephen Williams – Cadeirydd
Elen Huws – Is-gadeirydd
Richard Roberts – Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dilys Phillips – Trysorydd
Gethin Rowlands– aelod o’r pwyllgor
Ariannell Parry – aelod o’r pwyllgor (tan 15/1/24)
Eurig James – aelod o’r pwyllgor (o 15/1/24)
Dewi Hughes – aelod o’r pwyllgor
Raymond Griffiths – aelod o’r pwyllgor
Dwynwen Pennant – aelod o’r pwyllgor
Sioned Ll Jones – aelod o’r pwyllgor
Keith Roberts – aelod o’r pwyllgor

## Llywodraethu

Yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Pwyllgor sy’n rheoli gweithgareddau’r Clwb.

Cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn sef ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ac fe gynhaliwyd un cyfarfod brys ym mis Hydref, i gyd drwy gyfrwng Zoom. Mae’r drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal ein cyfarfodydd yn gweithio’n dda ac mae’n caniatáu i aelodau sy’n byw ym mhob rhan o Gymru ymuno â’r cyfarfodydd yn eitha rhwydd.

Gan mai un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb, ceir diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod a bydd y Trysorydd hefyd yn cyflwyno adroddiad am sefyllfa ariannol y Clwb a mantolen i'r Cyfarfod Blynyddol. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ddefnyddio'r arian oedd yn weddill yn y gronfa er cof am Gareth Pierce i gefnogi'r Urdd i drefnu ail gwrs penwythnos o fynydda a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglan Llyn, math o weithgaredd a fyddai wedi bod yn agos at galon Gareth.

Yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd cafwyd nifer o awgrymiadau gan aelodau fel a ganlyn:

<u>A. Taliadau i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP)</u>

Yn y cyfarfod cafwyd gwybod gan y Trysorydd fod rhan helaeth o dâl aelodaeth y Clwb yn cael ei dalu i'r CMP. Holwyd beth oedd y manteision o wneud hynny ac fe ofynnwyd i'r Pwyllgor roi ystyriaeth pellach i'r mater. Hefyd i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau, yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymry Cymraeg ynddynt.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i hyn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr ac fe nodwyd fod Gwyn Williams (Llanrwst), ar gais y Pwyllgor, wedi edrych i mewn i hyn yn y gorffennol a chanfod fod yr yswiriant a dderbynnir drwy aelodaeth o'r CMP yn gystadleuol a hefyd ei bod o fantais i'r Clwb fod yn aelod o gorff oedd â dylanwad yn y byd mynydda. Yn sgil hyn penderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

*i. ategu fod y Pwyllgor o'r farn ei bod o werth i'r Clwb fod yn aelod o'r CMP*
*ii. cytuno â'r awgrym fod yr Ysgrifennydd Gweithgareddau, yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, yn nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymry Cymraeg ynddynt.*
*iii. byddai Steve yn rhoi gwybod i Richard am ddyddiadau'r cyfarfodydd rhanbarthol dan sylw*

Bu datblygiadau pellach ynglŷn â thaliadau i'r CMP yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan gafwyd ar ddeall y disgwylir y bydd y taliadau a wneir i'r CMP gan glybiau ar ran eu haelodau yn codi i oddeutu £29 y pen. Gan mai ond £25 yw tâl aelodaeth y Clwb nid yw'r sefyllfa yn gynaliadwy yn y tymor hir a thra roedd y Trysorydd o'r farn fod gan y Clwb ddigon o arian yn y coffrau i ysgwyddo'r cynnydd yn 2025 byddai'n rhaid edrych ar faint y tâl aelodaeth yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfod brys o'r Pwyllgor i ystyried hyn ar 28ain o Hydref ac fe adroddir ar y sefyllfa i'r Cyfarfod Blynyddol.

<u>B. Archif</u>

Yn y Cyfarfod Blynyddol holwyd beth oedd y sefyllfa ynglŷn â'r bwriad i greu archif o'r dogfennau yn ymwneud â sefydlu'r Clwb, nifer ohonynt wedi cael eu harddangos yn stondin y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 2019.

Rhoddwyd ystyriaeth i hyn gan y Pwyllgor a chysylltodd Steve, y Cadeirydd, â nifer o aelodau a oedd ynglŷn â sefydlu'r Clwb a hel y dogfennau perthnasol at ei gilydd. Byddant maes o law yn cael eu trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol yn y gobaith y byddant yn cael eu rhoi ar wefan y Llyfrgell fel y bydd hanes sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb wedi ei ddiogelu ac ar gael i'w weld gan unrhyw un yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i Steve am ei holl waith ac yn sicr bydd y Cyfarfod yn ategu hyn. Gobeithir y bydd y ffolderi o ddogfennau a gasglwyd ar gael i'w harchwilio yn y Cyfarfod Blynyddol eleni.

Fe nodir isod rai o'r materion sydd wedi cael sylw'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn

<u>Cardiau aelodaeth electroneg</u>
Ystyriwyd a fyddai modd defnyddio ffurf electroneg i ddosbarthu cardiau aelodaeth i'r aelodau gan y gallai hyn arbed arian i'r Clwb drwy wneud i ffwrdd â chostau postio ac ati. Hyd yma ni lwyddwyd i gael digon o wybodaeth i ddangos a fyddai hyn yn rhywbeth ymarferol y gellid ei wneud.

<u>Graddio teithiau</u>
Ym mis Medi ystyriwyd a ddylid caniatáu i ddarpar-aelod ddod ar daith wedi ei graddio yn ddu (sef teithiau mwyaf heriol y Clwb). Oherwydd eu natur heriol ac anodd a fyddai'n well eu cyfyngu i aelodau llawn yn unig. Penderfynodd y Pwyllgor addasu'r canllawiau teithiau a nodi, er bod croeso i ddarpar-aelodau ymuno ag un o deithiau'r Clwb ar daith flasu, mai ar gyfer aelodau llawn yn unig mae'r teithiau wedi eu graddio yn ddu

<u>Canllawiau ar gyfer teithiau preswyl</u>
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ym mis Ionawr i'r drefn o ychwanegu tua 10% at gost teithiau preswyl y Clwb yn unol â chanllawiau'r Clwb er mwyn sicrhau bod arian wrth gefn. Cafodd y drefn hon ei mabwysiadu gan fod y Pwyllgor a'r Cyfarfod Blynyddol wedi penderfynu na ddylai teithiau preswyl wneud colled fyddai'n golygu bod y Clwb yn gorfod gwneud iawn amdano.
Gan fod tuedd i'r Clwb bellach ddefnyddio amrywiaeth o wahanol fathau o lety ar gyfer teithiau preswyl, yn amrywio o hostelau i ystafelloedd mewn gwestai, a olyga amrediad yn y prisiau a godir, penderfynodd y Pwyllgor ddiwygio'r canllawiau i geisio sicrhau bod hyblygrwydd yn yr hyn a godir yn ychwanegol ar aelodau tra yn ceisio sicrhau na fydd y Clwb yn gorfod cwrdd ag unrhyw ddiffyg:
Mae'r cymal perthnasol felly yn datgan "*Dylid ychwanegu hyd at 10% at gost dybiedig y daith fel bod arian wrth gefn"*

<u>Diffib y Clwb</u>
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ymholiad ynglŷn â phriodoldeb cario diffib y Clwb ar deithiau preswyl. Penderfynodd y Pwyllgor mai prif ddiben y diffibs sydd ym meddiant y Clwb yw eu defnyddio ar gyfer teithiau yng Nghymru. Fodd bynnag, os cyfyd taith breswyl lle mae'r aelodau sy'n mynychu yn tueddu i gyd-gerdded fel un grwp ac na fyddai yn cyd-daro â thaith yng Nghymru yna gellid ei gario yno. Byddai'n rhaid i arweinydd y daith breswyl sicrhau fod y diffib yn cael ei drosglwyddo mewn da bryd i arweinydd y daith olynol ar raglen weithgareddau'r Clwb yng Nghymru.

Eisteddfod genedlaethol
Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni a bu'r Pwyllgor yn gwneud trefniadau ar gyfer gweithgareddau'r Clwb ynddi. Traddododd Gerallt Pennant Ddarlith Goffa Llew Gwent yn olrhain hanes datblygiad cerdded y Munroau yn yr Alban. Hefyd cynhaliwyd Taith Goffa Gareth Pierce yn ystod yr wythnos gyda 21 yn ymuno â thaith ar Fynydd y Glyn o dan arweiniad Dewi Hughes. Roedd y Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i'r aelodau hynny a fu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Os oes diddordeb gennych mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol i'w gweld ar wefan y Clwb, gweler y ddolen isod:

http://www.clwbmynyddacymru.com/Dogfennau.htm

**Recriwtio ymddiriedolwyr**

Y Cyfarfod Blynyddol sydd yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ac felly'n penodi'r ymddiriedolwyr. Yn ôl y cyfansoddiad mae traean o aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf. Mae'n agored i unrhyw aelod gynnig i wasanaethu ar y Pwyllgor drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyn y Cyfarfod Blynyddol.

Os daw sedd yn wag rhwng Cyfarfodydd Blynyddol mae gan y pwyllgor yr hawl i gyfethol ymddiriedolwr, tan y Cyfarfod Blynyddol nesaf. Yn y cyfarfod ym mis Ionawr fe adroddwyd bod sedd wag ar y Pwyllgor yn dilyn ymadawiad Ariannell Parry i Awstralia ac fe gyfetholwyd Eurig James i wasanaethau ar y Pwyllgor yn ei lle.

Eleni mae tymor Steve fel ein Cadeirydd yn dod i ben a mawr yw ein diolch iddo am ein harwain dros y ddwy flynedd diwethaf. Bydd Elen Huws yn cymryd y gadair yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae Elen yn fynyddwraig brofiadol iawn sydd wedi hen arfer troedio mynyddoedd Cymru a thu hwnt ac mae yn un o'r aelodau sydd wedi dringo pob Munro yn yr Alban. Yn sicr bydd y Clwb mewn dwylo cadarn gydag Elen yn ein harwain dros y ddwy flynedd nesaf.

Wrth i Elen gymryd y gadair bydd swydd yr is-gadeirydd yn wag ac angen ei llenwi yn y Cyfarfod Blynyddol.

**Gweithgareddau**

Ers dechrau'r flwyddyn, trefnwyd 53 o deithiau amrywiol ar benwythnosau ac 11 ar ddyddiau Mercher. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cynnig o leiaf un daith pob wythnos. Diolch yn arbennig i'r rhai sydd wedi arwain taith am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn argoeli'n ardderchog o ran dyfodol y Clwb.

Trefnwyd dwy daith flasu dan arweiniad Stephen Williams; y naill ar Foelydd yr Wyddfa ddechrau mis Mai a'r llall dros y ddwy Glyder ddiwedd mis Medi. Mae'n braf gallu adrodd bod rhai o'r 'blaswyr' wedi cael eu hysbrydoli i ymaelodi. Diolch i'r

aelodau hynny a fu'n cynorthwyo a chroesawu'r rhai a ddaeth i flasu'r hyn y mae'r Clwb yn ei gynnig.

Trefnwyd dwy daith breswyl i'r Alban; diolch yn fawr i Keith Roberts am eu trefnu.

- Taith aeaf i Crianlarich**.** Ym mis Chwefror, bu 23 o aelodau yn dringo nifer helaeth o gopaon rhwng ardal Glen Lyon yn y dwyrain a Glencoe yn y gorllewin. Dathlwyd camp Gerallt Pennant o gwblhau'r Munros gyda chriw teilwng yn dringo dau gopa Buchaille Etive Beag yn Glencoe.

- Taith haf i Onich. Mwynhaodd 19 o aelodau dywydd hafaidd dros ben ddiwedd mis Mai a llwyddwyd i esgyn nifer helaeth o gopaon. Yno, dathlwyd camp Dwynwen Pennant o gwblhau dringo'r Munros drwy esgyn Carn Mor Dearg.

- Taith i Hawes, Swydd Efrog - aeth 19 o aelodau yno i fwynhau tywydd a theithiau ardderchog – diolch i Gwyn Williams am drefnu.

Cynhelir taith i Crianlarich ar 8-15 Mawrth 2024 a thaith haf i'r Cairngorms. Byddir yn anfon rhagor o fanylion cyn hir.

Defnyddiwyd peth o arian y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru yng Ngwersyll Glanllyn ar 4-6 Hydref 2024 ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed.

Rydym yn ddiolchgar i arweinyddion teithiau a'u cyd-fynyddwyr am anfon adroddiadau a lluniau o deithiau at Iolo ap Gwynn. Maen nhw'n cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae hynny'n hysbysebu effeithiol dros ben i'r Clwb.

## Cyfathrebu a chysylltu

Bu'r flwyddyn ers Tachwedd 2023 yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion 58 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â'r lluniau cyferbyniol ar Flickr. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf! Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal a porwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau iOS ac Android, a luniwyd gan Rhys Jones, yn dal ar gael (drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan) ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan ble bynnag yr ydych.

Diolch i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Cofiwch fod tudalen Newyddion ar y wefan hefyd ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau. Adroddwyd am nifer o faterion yno yn ystod y flwyddyn.

Ers Tachwedd 2023, defnyddiwyd y wefan filoedd o weithiau (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn ac yn amlwg begynnu pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb. Defnyddiwyd pob math o offer ar gyfer yr ymweliadau.

Y Gweplyfr / Facebook
Bellach mae ganddom bron 1.3k o ddilynwyr cyson ar ein tudalen ble gosodir cyhoeddiadau am ac adroddiadau ar weithragreddau.

Flickr
Mae tua 12,281 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau ers 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr. Pob taith gyda'i albwm ei hunan. Gall aelodau lawrlwytho unrhyw un o rhain ar gyfer defnydd personol.

Mae ein cyfrifon Gweplyfr/Facebook, X (Trydar Twitter) ag Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Diolch hefyd i'r rhai sy'n gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac Instagram. Cyhoeddir y rhaglen gweithgareddau a hanesion am bob gweithgaredd, ynghyd â Newyddion, ar ein gwefan. Cofiwch dagio @Clwb Mynydda Cymru pan yn negesu ar y gwefannau cymdeithasol. Cofiwch hefyd nodi eich bod am ddilyn ein cyfrif Gweplyfr/Facebook a hoffi a/neu rannu'r hanesion ag eraill.

Cofiwch lawr lwytho'r 'ap' ar gyfer iOS neu Android, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â gwefan y clwb – cyfarwyddiadau ar sut i wneud hynny ar gael ar y wefan [http://www.clwbmynyddacymru.com/Cysylltu.html].
Dim ond drwy ddilyn y cyfarwyddiadau uchod y gellir gwneud hyn, ni ellir cael hwn drwy adnoddau fel Playstore ayyb.

Er mwyn sicrhau dilyniant i'r dyfodol, os oes unrhyw aelod sydd â phrofiad o luniadu/cynnal gwefannau (defnyddir meddalwedd Adobe Dreamweaver i olygu'r wefan) ddiddordeb mewn cynorthwyo gyda'r gwaith dylid cysylltu ag Ysgrifennydd y Wefan.

Mae'r wefan yn gofnod pwysig o weithgareddau'r clwb dros y blynyddoedd. Daliwch ati i gefnogi ein gwefan a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Mae'n bwysig lledaenu'r wybodaeth am weithgareddau'r clwb yn y dulliau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

## Cyllid

Cyflwynir datganiad o gyfrifon y Clwb i sylw'r aelodau ac fe welir fod y sefyllfa ariannol yn parhau'n gadarn gyda mwy o incwm wedi ei dderbyn yn ystod y flwyddyn nag a gafwyd o wariant. Mae hyn yn batrwm blynyddol.

'Roedd gan y Clwb 262 o aelodau yn talu £25 y pen o dâl aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Daeth hyn ag incwm o £6,550. Yn ogystal 'roedd yna nifer o "garedigion". Unigolion ydi'r rhain sydd wedi bod yn aelodau yn y gorffennol ond heb gynyddu (na dileu) eu harchebion banc ac o'r herwydd sydd ddim mwyach yn gymwys i'w hystyried yn aelodau o'r Clwb. O'r rhain 'roedd 27 yn talu £20, 25 yn talu £15 a 7 yn talu symiau llai gan roi cyfanswm incwm o £980.

Mae'r Clwb yn perthyn i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP), sy'n darparu yswiriant ar gyfer y gweithgareddau. 'Roedd cost ymaelodi â'r CMP yn £23.90 y pen (gyda rhywfaint o ostyngiad yn ystod ail hanner y flwyddyn). Cyfanswm y taliad i'r CMP oedd £6,225.95.

Mae'r derbyniadau a thaliadau ar gyfer y cinio blynyddol yn cwmpasu dwy flwyddyn ariannol fel rheol. Yn y flwyddyn dan sylw derbyniwyd £620 at ginio blynyddol 2023 yn y Royal Oak, Betws y Coed a thalwyd £1,165. Er bod hyn yn edrych fel colled sylweddol nid dyna'r gwir sefyllfa gan fod nifer o ragdaliadau wedi eu derbyn yn y flwyddyn ariannol flaenorol. (Rhyw £50 oedd y gwahaniaeth terfynol rhwng yr incwm a'r gwariant, sy'n gyson â blynyddoedd eraill). Bydd yr un sefyllfa yn codi yng nghyfrifon 2024/25 gan fod rhai taliadau wedi eu derbyn a'u gwneud mewn perthynas â chinio 2024 cyn i'r llyfrau gau.

Trefnwyd tair taith breswyl yn ystod y flwyddyn. 'Roedd cyfanswm y derbyniadau ar gyfer y dair taith yn £18,723 a'r gwariant yn £20,657. Ond fel gyda'r cinio blynyddol mae hyn cuddio'r ffaith fod nifer wedi talu blaendal ar gyfer taith Crianlarich cyn i'r llyfrau gau ar gyfrifon y flwyddyn gynt. Diolch i drefnwyr y teithiau am eu hymdrechion di-flino i sicrhau nad yw'r teithiau yn gwneud colled a'u bod yn talu amdanynt eu hunain neu'n dangos rhywfaint o warged.

Yr unig incwm arall oedd llog banc (noder fod y gyfradd llog wedi cynyddu gryn dipyn yn y flwyddyn dan sylw) a rhoddion gan aelodau (sef gordaliadau heb eu hawlio'n ôl).

'Roedd y gwariant yn cynnwys y costau rhedeg arferol yn ymwneud â bancio, gweinyddiaeth, y wefan, y ddarlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac aelodaeth o'r Bartneriaeth Awyr Agored (sy'n cynnig hyfforddiant i'r aelodau). Yn ogystal gwnaed taliad o £528 i Urdd Gobaith Cymru am redeg penwythnos fynydda ar y cyd â'r Clwb er cof am y diweddar Gareth Pierce. Daeth yr arian hwn o Gronfa Coffa Gareth Pierce; mae £360 ar ôl yn y gronfa sydd wedi ei glustnodi ar gyfer penwythnos arall gyffelyb yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

## Cronfeydd

Ar ddiwedd y flwyddyn 'roedd gan y Clwb £7,176.99 yn y coffrau. (Mae hyn yn cynnwys £360 yng Nghronfa Goffa Gareth Pierce, £52.50 o ragdaliadau ar gyfer cinio blynyddol 2024 a £6,764.49 yn y gronfa gyffredinol). Mae'r sefyllfa yn parhau'n iach ac yn dangos cynnydd unwaith eto ar y flwyddyn gynt, yn bennaf oherwydd yr incwm gan y caredigion a'r gwarged ar y teithiau. Gorffennwyd y flwyddyn gydag oddeutu £1,700 yn fwy o arian yn y gronfa gyffredinol nag oedd yno ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae'r Clwb angen cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu) ac hefyd er mwyn gwarchod yn erbyn gwariant annisgwyl. Credir fod swm o £5000 yn ddigonol ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Gan bod angen i'r arian for ar gael ar fyr rybudd mae'n cael ei gadw mewn cyfrif cadw yn y banc yn hytrach na'i fuddsoddi am dymor hirach.

Rhagwelir y bydd y gronfa gyffredinol yn gostwng yn sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 o ganlyniad i benderfyniad y CMP i gynyddu eu ffi i £29.33 y pen o 1 Ionawr 2025. Mae modd i'r Clwb ymdopi gyda hyn yn 2025 oherwydd cryfder y gronfa gyffredinol ond yn amlwg fydd hynny ddim yn gynaliadwy am gyfnod hir a bydd raid dod i benderfyniad yng nghyfarfod blynyddol 2025 ar sut i ymateb i'r codiad annisgwyl hwn.

Stephen Williams
Cadeirydd

(ar ran yr ymddiriedolwyr)

Dyddiad: 16/11/24

**CLWB MYNYDDA CYMRU - adroddiad ariannol 2023/24**

*(Elusen gofrestredig rhif 1190243)*

| **Derbyniadau** | | £ | £ | *(2022/23)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | Aelodau | 6,550.00 | | |
| | Caredigion | 980.00 | | |
| | | | 7,530.00 | *7,690.00* |
| Cinio blynyddol 2023 | | 620.00 | | |
| Cinio blynyddol 2024 (rhagdaliadau) | | 85.00 | | |
| | | | 705.00 | *1,742.00* |
| Teithiau: | | | | |
| | Crianlarich | 9,912.00 | | |
| | Hawes | 5,391.00 | | |
| | Inchree | 3,420.00 | | |
| | | | 18,723.00 | *5,130.00* |
| Incwm arall: | Llog banc | | 162.36 | *48.78* |
| | Rhoddion | | 30.00 | *70.00* |
| Mewn llaw 1 Hydref 2023: | | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 3,882.03 | | |
| | Cyfrif cadw | 5,581.21 | | |
| | | | 9,463.24 | *4,893.42* |
| | | | 36,613.60 | *19,574.20* |

| **Taliadau** | | £ | £ | *(2022/23)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | | | | |
| | Cyngor Mynydda Prydeinig | | 6,225.95 | *5,707.15* |
| Cinio blynyddol 2023 | | 1,165.00 | | |
| Cinio blynyddol 2024 (blaendaliad) | | 32.50 | | |
| | | | 1,197.50 | *1,290.00* |
| Teithiau: | | | | |
| | Crianlarich | 12,606.00 | | |
| | Hawes | 4,901.00 | | |
| | Inchree | 3,150.00 | | |
| | | | 20,657.00 | *2,127.00* |
| Gwariant arall: | Costau banc | 61.20 | | |
| | Gweinyddol | 196.50 | | |
| | Gwefan | 297.46 | | |
| | Eisteddfod 2024 (darlith) | 123.00 | | |
| | Partneriaeth Awyr Agored | 150.00 | | |
| | Penwythnos goffa Gareth Pierce | 528.00 | | |
| | | | 1,356.16 | *986.81* |
| Mewn llaw 30 Medi 2024: | | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 433.42 | | |
| | Cyfrif cadw | 6,743.57 | | |
| | | | 7,176.99 | *9,463.24* |
| | | | 36,613.60 | *19,574.20* |

Dilys Phillips
Trysorydd 24/10/24

George Jones
Archwiliwr 24/10/24

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Clwb Mynydda Cymru (elusen rhif 1190243)**

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Clwb Mynydda Cymru (yr Ymddiriedolaeth) am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2024.

**Cyfrifoldebau a'r sail adrodd**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Cwblheais fy archwiliad. Cadarnaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw agwedd berthnasol:

1. na chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw ar gyfer yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan adran 130 o'r Ddeddf; neu

2. nad yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion hynny.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

Arwyddwyd: GL Jones

Enw: GEORGE LEWIS JONES

Cyfeiriad: BRYN EITHIN, PENYGARTH, CAERNARFON LL55 1EY

Dyddiad: 24/10/2024.

# Accounts

# Clwb Mynydda Cymru

*Elusen gofrestredig rhif 1190243*

## Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2022 - 2023

**Cyfansoddiad ac Amcan**

Mae Clwb Mynydda Cymru wedi ei sefydlu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ei amcan ydi hyrwyddo chwaraeon amatur, sef mynydda, yng Nghymru er budd y cyhoedd, yn arbennig ond nid yn unig trwy ddarparu cyfleon ar gyfer mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymddiriedolwyr**

Yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Stephen Williams – Cadeirydd
Elen Huws – Is-gadeirydd
Richard Roberts – Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dilys Phillips – Trysorydd
Gethin Rowlands– aelod o'r pwyllgor
Ariannell Parry – aelod o'r pwyllgor
Dewi Hughes – aelod o'r pwyllgor
Raymond Griffiths – aelod o'r pwyllgor
Dwynwen Pennant – aelod o'r pwyllgor
Sioned Ll Jones – aelod o'r pwyllgor
Keith Roberts – aelod o'r pwyllgor

**Llywodraethu**

Yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Pwyllgor sy'n rheoli gweithgareddau'r Clwb.

Cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn sef yn mis Ionawr, Mai a Medi ac fe gynhaliwyd un cyfarfod brys ym mis Hydref, i gyd drwy gyfrwng Zoom. Mae'r drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal ein cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac mae'n caniatáu i aelodau sy'n byw ym mhob rhan o Gymru ymuno â'r cyfarfodydd yn eitha rhwydd.

Gan mai un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb, ceir diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod. Roedd gan y Clwb swm

o £881.41 yn ei goffrau a dderbyniwyd fel rhodd er cof am Gareth Pierce gan ei deulu. Cytunodd y Pwyllgor eleni y gellid defnyddio'r arian yma i gefnogi'r Urdd i drefnu cwrs penwythnos o fynydda a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglan Llyn ar 22-24 Medi 2023, math o weithgaredd a fyddai wedi bod yn agos at galon Gareth.

Yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd cafwyd nifer o awgrymiadau gan aelodau sef:

- cynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol ar noson yn ystod yr wythnos e.e nos Wener heb gael taith yn gysylltiedig â'r digwyddiad
- cynnal y Cyfarfod Blynyddol mewn safle yn y Canolbarth gyda'r gobaith y gellid denu aelodau o'r de a'r gogledd iddo
- gyrru neges i atgoffa aelodau i gofrestru eu ffonau symudol gyda rhif argyfwng 999 fyddai yn cynorthwyo i gysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng

Fe ystyriwyd y materion hyn gan y Pwyllgor ac fe gytunwyd ar y canlynol :

i. bod y pwyllgor yn ffafrio parhau i gynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol ar ddydd Sadwrn gyda thaith yn ystod y dydd yn gysylltiedig a dylid sicrhau fod y daith yn lleol ac yn addas o safbwynt amser

ii. bod peryg, o gofio bod canran helaeth o aelodau'r Clwb yn byw yng Ngogledd Cymru, y gallai symud y Cyfarfod Blynyddol i leoliad yng Nghanolbarth Cymru olygu na fyddai canran sylweddol yn mynychu gan nad oes digon o aelodau yn byw yn y de i wneud fyny am y diffyg yma. Fodd bynnag, gellid ystyried cynnal y Cyfarfod Blynyddol yn rhan ddeheuol Gogledd Cymru megis ardal Dolgellau a allai fod rhywfaint yn fwy cyfleus i aelodau'r de.

iii. gofyn i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau gynnwys neges am gofrestru ffonau symudol gyda rhif argyfwng 999 yn un o'i negeseuon e-bost i'r aelodau.

Ym mis Ionawr fe groesawyd Richard i'w gyfarfod cyntaf fel ein Ysgrifennydd Gweithgareddau newydd ac mae wedi bod yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn, nid yn unig yn trefnu'r rhaglen ond ar gais y Pwyllgor fe gyflwynodd drefn newydd o raddio teithiau a fydd, gobeithir, yn gwneud natur y teithiau yn gliriach yn enwedig i aelodau newydd.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cytuno i barhau â'i aelodaeth o'r Bartneriaeth Awyr Agored. Gyda'u cymorth mae nifer o aelodau'r Clwb wedi penderfynu gwneud y cwrs Arweinydd Mynydd (Haf) ac wedi dechrau ar eu hyfforddiant. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig rhoi cefnogaeth i aelodau wella eu sgiliau arwain a fydd yn sicr o fudd i weithgareddau'r Clwb.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni ac roedd Dwynwen wedi trefnu i Catrin Meurig draddodi Darlith Goffa Llew Gwent ar rai o'i hanturiaethau mewn rasys rhedeg heriol iawn y bu'n cystadlu ynddynt. Hefyd fe gynhaliwyd Taith Goffa Gareth Pierce gan y Clwb yn ystod wythnos yr Eisteddfod gyda 26 yn ymuno â thaith ar yr Eifl (yn y niwl!!) ar y 9fed o Awst dan arweiniad Iolo Roberts.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ym mis Hydref er mwyn ystyried canllawiau'r Clwb ar gyfer teithiau preswyl mewn perthynas â'r ymweliad â Crianlarich yn Chwefror 2024. Gan mai arhosiad mewn gwesty oedd dan sylw fe gytunwyd byddai ychwanegu £2 y pen y noson i gost y daith yn ddigonol er mwyn sicrhau fod arian wrth gefn i warchod y Clwb rhag ofn y byddai'r daith yn gwneud colledion.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol i'w gweld ar wefan y Clwb, gweler y ddolen isod:
http://www.clwbmynyddacymru.com/Dogfennau.htm

**Recriwtio ymddiriedolwyr**

Y Cyfarfod Blynyddol sydd yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ac felly'n penodi'r ymddiriedolwyr. Yn ôl y cyfansoddiad mae traean o aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf. Mae'n agored i unrhyw aelod gynnig i wasanaethu ar y Pwyllgor drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyn y Cyfarfod Blynyddol.

Yng nghyfarfod blynyddol 2022 rhoddodd Eryl Owain a Iona Evans y gorau i fod yn ymddiriedolwyr. Diolchwyd yn gynnes iddynt am eu gwasanaeth; yn achos Eryl cafwyd cyfle i gydnabod ei waith clodwiw fel Ysgrifennydd Gweithgareddau dros gyfnod o 10 mlynedd.

Rhoddwyd croeso i ddau ymddiriedolwr newydd i gymryd eu lle sef Gethin Rowlands ac Ariannell Parry.

**Gweithgareddau**

Ers dechrau'r flwyddyn, trefnwyd 55 o deithiau ar benwythnosau a 12 ar ddyddiau Mercher. Diolch arbennig i'r wyth aelod sydd wedi arwain taith am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn argoeli'n ardderchog o ran dyfodol y Clwb.

Trefnwyd taith flasu – Moel Siabod – ddechrau mis Mai ac fe ysbrydolwyd rhai o'r 'blaswyr' i ymaelodi. Mae un ohonyn nhw eisoes wedi arwain taith i'r Clwb!

Ers dechrau mis Medi, mae teithiau'r clwb yn cael eu graddio yn unol â lefel eu her. Mae hyn yn helpu darpar-gerddwyr benderfynu p'un ag ydyn nhw am ymuno â thaith ai peidio.

Trefnwyd dwy daith breswyl i'r Alban.

• Taith aeaf i Crianlarich. Ym mis Chwefror, bu 20 o aelodau yn dringo nifer helaeth o gopaon rhwng ardal Glen Lyon yn y dwyrain a Glencoe yn y gorllewin.

• Taith haf i Roy Bridge. Mwynhaodd 11 o aelodau dywydd hafaidd dros ben ddiwedd mis Mai a llwyddwyd i esgyn nifer helaeth o gopaon.

Diolch yn fawr iawn i Gareth Everett Roberts (Crianlarich) a Keith Roberts (Roy Bridge) am drefnu'r ddwy daith ac i Anna George am lunio adroddiadau ardderchog sy'n croniclo'u llwyddiant.

Cynhelir taith arall i Crianlarich ar 17-24 Chwefror 2024 a thaith i Hawes, Parc Cenedlaethol y Yorkshire Dales ar 6-10 Mai.

Treuliodd deg o aelodau'r Clwb chwe niwrnod yn derbyn hyfforddiant a oedd yn cynnwys noson stormus a gwlyb o fordwyo a gwersylla! Byddan nhw'n treulio cyfnod arall o asesiad ar y mynyddoedd maes o law. Trefnir y cyrsiau ardderchog hyn mewn cydweithrediad â'r Bartneriaeth Awyr Agored.

**Cyfathrebu a chysylltu**

Bu'r flwyddyn ers Tachwedd 2022 yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion 48 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â'r lluniau cyferbyniol ar Flickr. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf! Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â porwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau iOS ac Android, a luniwyd gan Rhys Jones, yn dal ar gael (drwy ddefnyddio'r cyfarwyddiadau ar y wefan) ac yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan ble bynnag yr ydych (wel, bron iawn!).

Diolch i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Cofiwch fod tudalen Newyddion ar y wefan hefyd ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau.

Cofnodir manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb gan Google Analytics. Golyga hyn fod gennym wybodaeth hynod o gyflawn o sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio, gyda dadansoddiad manwl o natur y defnyddwyr (ond dim manylion personol ar gael) gan gynnwys yr offer a ddefnyddir.

Ers Tachwedd 2022, defnyddiwyd y wefan dros 15k o weithiau gan tua 4.5k o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Nid oes gwybodaeth at gael parthed rhywedd bellach! Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn ac yn pegynnu pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb. Defnyddiwyd pob math o offer ar gyfer yr ymweliadau. Tua'r un nifer o gyfrifiaduron yn defnyddio Windows a rhai Mac. Tua 62 % yn defnyddio cyfrifiaduron symudol, 30 % ar gyfrifiaduron pen-desg a'r gweddill ar tabledi/llechi.

Bellach mae ganddom 1,108 o ddilynwyr cyson ar ein tudalen Gweplyfr/Facebook. Mae'r dadansoddiad yn dangos fod 53.70% o'r dilynwyr yn ferched a 46.30% yn ddynion gyda'r mwyafrif yn yr oedran 45-54, gyda'r oedran 35-44 yn ail agos.

Bellach hefyd, mae tua 10,907 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau ers 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr. Gall aelodau lawrlwytho unrhyw un o rhain ar gyfer defnydd personol.

Mae ein cyfrifon Gweplyfr/Facebook, X (Trydar Twitter) ag Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Diolch hefyd i'r rhai sy'n gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac Instagram. Cyhoeddir y rhaglen gweithgareddau a hanesion am bob gweithgaredd, ynghyd â Newyddion, ar ein gwefan. Cofiwch dagio @Clwb Mynydda Cymru pan yn negesu ar y gwefannau cymdeithasol. Cofiwch hefyd nodi eich bod am ddilyn ein cyfrif Gweplyfr/Facebook a hoffi a/neu rannu'r hanesion ag eraill.

Cofiwch lawr lwytho'r 'ap' ar gyfer iOS neu Android, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â gwefan y clwb – cyfarwyddiadau ar sut i wneud hynny ar gael ar y wefan [http://www.clwbmynyddacymru.com/Cysylltu.html].

Os oes gan unrhyw aelod sydd â phrofiad o luniadu/cynnal gwefannau (defnyddir meddalwedd Adobe Dreamweaver i olygu'r wefan) ddiddordeb mewn cynorthwyo gyda'r gwaith byddai'r Ysgrifennydd Gwefan yn ddiolchgar o glywed ganddo/i.

Mae'r wefan yn gofnod pwysig o weithgareddau'r clwb dros y blynyddoedd. Daliwch ati i gefnogi ein gwefan a'r tudalennau gwefannau cymdeithasol. Mae'n bwysig lledaenu'r wybodaeth am weithgareddau'r clwb yn y dulliau hyn, gan mai dyma'r unig ffordd y daw cymaint ag sy'n bosib o bobl i wybod am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

**Cyllid**

Mae sefyllfa ariannol y Clwb yn gadarn gan fod y tâl aelodaeth wedi cynyddu i £25 y pen o Ionawr 2023 ymlaen. Mae hyn yn ddigonol i gwrdd â'r cynnydd yn nhâl aelodaeth y Clwb i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) sydd bellach yn cynyddu eu ffioedd i aelodau clybiau yn unol â chwyddiant yn flynyddol. Gobaith y Pwyllgor yw y gellir cadw'r tâl aelodaeth yn £25 cyhyd â phosibl.

Y prif ffynhonnell incwm ydi'r tanysgrifiadau. Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd £25 o dâl aelodaeth gan 259 aelod ynghyd ag £20 o daliad hwyr ar gyfer 2022. Yn ogystal cafwyd taliadau o £1195 gan rai oedd heb gynyddu eu harcheb banc i £25 ac sydd felly ddim yn gymwys i dderbyn aelodaeth o'r Clwb. Mae rhain yn cynnwys 34 yn talu £20, 30 yn talu £15 a 7 yn talu symiau llai na hynny.

Roedd y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £22.25 yr aelod.

Cafwyd derbyniadau o £1252 ar gyfer cinio blynyddol 2022 a thaliadau o £1290 gan arwain at golled bach o £38. Derbyniwyd £490 at ginio blynyddol 2023; bydd y taliad yn ei erbyn i'w weld yng nghyfrifon 2023-24.

Derbyniwyd £2120 at daith Roybridge ym mis Mai a thalwyd £2127 (sef colled bach o £7). Daeth rhai blaendaliadau am daith Crianlarich yn Chwefror 2024 i law cyn i'r cyfrifon gau; bydd y taliad yn eu herbyn i'w weld yng nghyfrifon 2023-24.

Cafwyd llog o £48.78 (cyfrif cadw) a rhoddion gan (gyn)aelodau o £70.

Daeth costau rhedeg y Clwb (costau banc, gweinyddol a gwefan) i £736.81 am y flwyddyn. Ar ben hynny talwyd £150 i ymuno â'r Bartneriaeth Awyr Agored a £100 am logi pabell y Cymdeithasau yn yr Eisteddfod.

**Cronfeydd**

Mae gan y Clwb £9463.24 yn y banc. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Goffa Gareth Pierce (£881.41), blaendaliadau am ginio blynyddol 2023 a thaith Crianlarich (£3500) a chronfa gyffredinol o £5081.83. Mae'r gronfa gyffredinol wedi cynyddu o'r hyn oedd flwyddyn yn ôl oherwydd y codiad yn y tâl aelodaeth a'r cynnydd canlynol yn nifer y caredigion.

Mae'r Clwb yn cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.

Stephen Williams
Cadeirydd

(ar ran yr ymddiriedolwyr)

Dyddiad: 11/11/23

**CLWB MYNYDDA CYMRU - adroddiad ariannol 2022/23**

*(Elusen gofrestredig rhif 1190243)*

| **Derbyniadau** | | £ | £ | *(2021/22)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | Aelodau | 6,495.00 | | *5,740.00* |
| | Caredigion | 1,195.00 | | *620.00* |
| | | | 7,690.00 | *6,360.00* |
| Cinio blynyddol 2022 | | | 1,252.00 | *971.00* |
| Cinio blynyddol 2023 (taliadau ymlaen llaw) | | | 490.00 | |
| Teithiau: | Roybridge | | 2,120.00 | *91.00* |
| | Crianlarich -blaendaliadau | | 3,010.00 | |
| Incwm arall: | Llog banc | | 48.78 | *1.73* |
| | Rhoddion | | 70.00 | |
| Mewn llaw 1 Hydref 2022: | | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 860.99 | | |
| | Cyfrif cadw | 4,032.43 | | |
| | | | 4,893.42 | *7,603.41* |
| | | | 19,574.20 | *15,062.29* |

| **Taliadau** | | £ | £ | *(2021/22)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | | | | |
| | Cyngor Mynydda Prydeinig | | 5,707.15 | *5,719.00* |
| Cinio blynyddol 2022 | | | 1,290.00 | *1,240.00* |
| Teithiau: | Roybridge | | 2,127.00 | *91.00* |
| Gwariant arall: | Costau banc | 60.80 | | *52.08* |
| | Gweinyddol | 377.87 | | *192.00* |
| | Gwefan | 298.14 | | *226.79* |
| | Eisteddfod 2023 (darlith) | 100.00 | | |
| | Partneriaeth Awyr Agored | 150.00 | | *150.00* |
| | *Prynu diffibriliwr* | | | *1,878.00* |
| | *Timau achub* | | | *500.00* |
| | *Cwrs cymorth cyntaf* | | | *120.00* |
| | | | 986.81 | *3,118.87* |
| Mewn llaw 30 Medi 2023: | | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 3,882.03 | | |
| | Cyfrif cadw | 5,581.21 | | |
| | | | 9,463.24 | *4,893.42* |
| | | | 19,574.20 | *15,062.29* |

Dilys Phillips
Trysorydd 16/10/2023

George Jones
Archwiliwr 16/10/2023

# Accounts

## Clwb Mynydda Cymru

*Elusen gofrestredig rhif 1190243*

## Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2021 - 2022

### Cyfansoddiad ac Amcan

Mae Clwb Mynydda Cymru wedi ei sefydlu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ei amcan ydi hyrwyddo chwaraeon amatur, sef mynydda, yng Nghymru er budd y cyhoedd, yn arbennig ond nid yn unig trwy ddarparu cyfleon ar gyfer mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Dwynwen Pennant – Cadeirydd
Stephen Williams – Is-gadeirydd
Eryl Owain – Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts – Trysorydd Cynorthwyol
Iona Evans – aelod o'r pwyllgor
Dewi Hughes – aelod o'r pwyllgor
Raymond Griffiths – aelod o'r pwyllgor
Elen Huws – aelod o'r pwyllgor
Sioned Ll Jones – aelod o'r pwyllgor
Keith Roberts – aelod o'r pwyllgor

### Llywodraethu

Yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Pwyllgor sy'n rheoli gweithgareddau'r Clwb.

Cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn sef yn mis Ionawr, Mai a Medi ac fel y llynedd fe'u cynhaliwyd i gyd drwy gyfrwng Zoom. Mae'r drefn o ddefnyddio Zoom i gynnal y cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac mae'n caniatáu i aelodau sy'n byw ym mhob rhan o Gymru ymuno â'r cyfarfodydd yn eitha rhwydd.

Yn amlwg un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb ac mae'n derbyn diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod. Ym mis Mai ystyriwyd y posibilrwydd o newid cyfrif Banc y Clwb o HSBC i fanc arall yn deillio o

benderfyniad y banc hwnnw i ddechrau codi tâl am drafodion. Ar ôl ystyried y mater penderfyniad y Pwyllgor oedd y dylid aros efo HSBC.

Hefyd fe ystyriwyd os y gellid derbyn taliadau i gyfrif banc y Clwb trwy ddebyd uniongyrchol a fyddai'n gwneud y trefniadau gweinyddol yn fwy rhwydd. Wedi i'r Trysorydd ymchwilio i hyn fe welwyd y byddai'n rhaid defnyddio asiant i weithredu'r drefn ar ein rhan. Cafodd wybodaeth am nifer o gwmnïau ond nid oedd unrhyw un yn cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfyniad y Pwyllgor felly oedd y byddai i'r Clwb weithredu unrhyw drefn o ddefnyddio debyd uniongyrchol drwy gyfrwng y Saesneg yn groes i egwyddorion sylfaenol y Clwb ac na fyddai gwneud hynny yn dderbyniol.

Ym mis Mai ymunodd Sian Williams, Swyddog Gwirfoddoli y Bartneriaeth Awyr Agored â chyfarfod y Pwyllgor i roi cyflwyniad byr i'r aelodau am newidiadau yn y ffordd y bydd y Bartneriaeth yn gweithredu yn y dyfodol. Cafwyd gwybod y bydd angen i glybiau dalu tâl aelodaeth o £150 y flwyddyn os am geisio am gefnogaeth ariannol i'w haelodau fynychu unrhyw gyrsiau drwy'r Bartneriaeth ac mai £500 fyddai'r uchafswm ar gael yn flynyddol fel cymorth i aelodau unrhyw glwb. Cytunwyd fod budd i aelodau'r Clwb fynychu cyrsiau ar gael drwy'r Bartneriaeth ac y dylid ymaelodi a lledaenu'r wybodaeth ymysg yr aelodau fod y cymorth i fynychu cyrsiau ar gael.

Cedwir cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol ac maent i'w gweld ar wefan y Clwb trwy ddilyn y ddolen - http://www.clwbmynyddacymru.com/Dogfennau.htm

**Recriwtio ymddiriedolwyr**

Y Cyfarfod Blynyddol sydd yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ac felly'n penodi'r ymddiriedolwyr. Yn ôl y cyfansoddiad mae traean o aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf. Mae'n agored i unrhyw aelod gynnig i wasanaethu ar y Pwyllgor drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyn y Cyfarfod Blynyddol.

Bydd dau newid sylfaenol pellach yn digwydd i aelodaeth y Pwyllgor a rhediad y Clwb yn y Cyfarfod Blynyddol eleni. Yn gyntaf bydd cyfnod Dwynwen fel Cadeirydd yn dod i ben a mawr yw'r diolch iddi am ein harwain dros y ddwy flynedd diwethaf ar gyfnodau a oedd ar rai adegau yn anodd iawn. Bydd Steve yn cymryd y gadair yn y Cyfarfod Blynyddol. Yn sicr byddwn mewn dwylo cadarn gyda Steve yn ein harwain dros y ddwy flynedd nesaf.

Gyda Steve yn cymryd y gadair mae swydd yr Is-gadeirydd yn wag. Mae Elen Huws, sydd wedi bod yn aelod ffyddlon o'r Clwb ers nifer o flynyddoedd (ac wedi llwyddo i gwblhau'r Munros eleni), wedi cytuno i'w henw gael ei roi ymlaen i'r Cyfarfod. Heb os, bydd pawb yn gytûn bod Elen yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer y swydd yma.

Hefyd, yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2021, mynegodd Eryl ei fwriad i roi'r gorau i'w swydd fel Ysgrifennydd Gweithgareddau wedi deng mlynedd o drefnu. Diau fod yr aelodau i gyd yn gwerthfawrogi 'r holl waith caled mae Eryl wedi ei wneud dros y

blynyddoedd a'i e-byst rheolaidd yn atgoffa pawb o'r teithiau yn ddefnyddiol tu hwnt. Bydd colled ar ei ôl. Fodd bynnag rhaid parchu ei benderfyniad a gwnaed apêl ymysg yr aelodau am olynydd.

Mae Richard Roberts wedi datgan ei fod yn fodlon i'w enw gael ei roi gerbron y Cyfarfod Blynyddol i gymryd yr awenau a diolch y fawr iddo am gytuno i wneud hynny. Mae'n sicr y bydd Richard yn olynydd teilwng i Eryl.

**Gweithgareddau**

Cynhaliwyd o leiaf 61 o deithiau ers Cyfarfod Blynyddol 2021; 11 ohonynt yn y de a 12 o deithiau dydd Mercher.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn Nhregaron, y gyntaf ers y clo. Roedd Dwynwen wedi trefnu i Garadog Jones roi Darlith Goffa Llew Gwent ar gyfer Eisteddfod 2020 ac felly wedi hir ddisgwyl llwyddwyd i'w chynnal eleni. Teitl y ddarlith oedd "Elfen am Antur" ac roedd yn hynod o lwyddiannus gyda Phabell y Cymdeithasau yn orlawn ar ei chyfer.

Daeth 46 ar daith yr Eisteddfod o Ystrad Fflur i Lynnoedd Teifi a llawer yn troedio'r tir yma am y tro cyntaf ac yn cael profi cymaint sydd gan Gymru i'w gynnig y tu hwnt i'r mynyddoedd adnabyddus. Penderfynwyd dynodi taith flynyddol wythnos y brifwyl yn Daith Goffa Gareth Pierce.

Trefnwyd penwythnos o hyfforddiant gan yr Urdd yng Nglan-llyn ddiwedd Medi i 11 o bobl ifanc yn eu harddegau canol o bob cwr o Gymru gan ddefnyddio rhan o'r arian a gyfrannwyd er cof am Gareth Pierce. Bu'n llwyddiant ac mae bwriad i drefnu hyfforddiant tebyg yn y dyfodol.

Trefnwyd dau ymweliad â'r Alban, i Crianlarich ym mis Chwefror ac i Drumnadrochit ger Inverness ym mis Mai. Diolch i Gareth Everett Roberts am drefnu'r rheiny. Gan fod y Crianlarich Hotel yn cynnig llety mor gysurus a bod y pentref yn ganolfan mor hwylus, penderfynwyd dychwelyd yno am y trydydd tro fis Chwefror nesaf.

Calonogol iawn ydi nodi bod cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau iau sydd wedi ymaelodi a cherdded yn rheolaidd, a'r rhai hynny'n fynyddwyr a mynyddwragedd o'r iawn ryw. Mae dyfodol y clwb yn ddiogel!

**Cyfathrebu a chysylltu**

Bu'r flwyddyn ers Tachwedd 2021 yn un eithaf prysur i'r Clwb a chofnodwyd hanesion tua 66 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan. Bu'r wefan a'r cyfrif Gweplyfr/Facebook yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Bu hefyd yn ddefnyddiol pan oedd angen diweddaru'r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf. Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â phorwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Mae'r 'ap' ar gyfer ffonau clyfar a phadiau iOS ac Android, a luniwyd gan Rhys Jones, yn dal yn boblogaidd fel dull hawdd o gyrchu gwybodaeth o'r wefan.

Diolch i bawb wnaeth ddanfon adroddiadau am hanes y teithiau gyda lluniau gwych. Cofier fod tudalen Newyddion ar y wefan ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau – gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw hanes allai fod o ddiddordeb.

Cofnodir manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb gan Google Analytics. Golyga hyn fod gennym wybodaeth hynod o gyflawn o sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio, gyda dadansoddiad manwl o natur y defnyddwyr (ond dim manylion personol ar gael) gan gynnwys yr offer a ddefnyddir.

Ers Tachwedd 2021, bu 46,849 ymweliad â'r wefan gan 5,077 o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn ac yn pegynnu pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb.

Bellach, mae tua 9,500 o luniau a dynnwyd ar ein teithiau yn ôl i 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr. Gall aelodau lawrlwytho y rhain ar gyfer defnydd personol.

Mae ein cyfrifon Gweplyfr / Facebook, Trydar / Twitter ac Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Cyhoeddir y Rhaglen a hanesion pob gweithgaredd ar ein gwefan – ynghyd â dolen i unrhyw adroddiad ar y wefan ar y Gweplyfr / Facebook.

Gall unigolion hefyd ychwanegu eu lluniau neu sylwadau eu hunain at rhain, yn ogystal â'r cyfrifion Trydar ac Instagram. Anogir yr holl aelodau i dagio @Clwb Mynydda Cymru a nodi eu bod am ddilyn ein cyfrif Gweplyfr / Facebook a hoffi a/neu rannu'r hanesion.

Anogir pawb hefyd i lawr lwytho'r 'ap' o safleoedd 'apiau' iOS neu Android – mae cyfarwyddiadau ar sut i wneud hynny ar gael ar y wefan.

Siomedig braidd oedd gweld mai dim ond tua 21% o'n defnyddwyr gwefan sydd wedi gosod eu cyfrifiaduron i weithredu drwy gyfrwng Y Gymraeg – er fod hyn bellach yn rhwydd i'w osod.

Dalier ati i gefnogi ein gwefan a thudalennau gwefannau cymdeithasol.

**Cyllid**

Mae sefyllfa ariannol y Clwb yn gadarn gan fod penderfyniad wedi ei wneud yng Cyfarfod Blynyddol 2021 i gynyddu'r tâl aelodaeth i £25 y pen o Ionawr 2023 ymlaen. Bydd y cynnydd yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â'r cynnydd yn nhâl aelodaeth y Clwb i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) sydd wedi datgan eu bwriad i gynyddu eu ffioedd i aelodau clybiau yn unol â chwyddiant yn flynyddol. Gobaith y Pwyllgor yw y gellir cadw'r tâl aelodaeth yn £25 cyhyd â phosibl.

Y prif ffynhonnell incwm ydi'r tanysgrifiadau. Yn ystod y flwyddyn 'roedd gan y Clwb 287 aelod yn talu £20 yr un (£5740). Yn ogystal derbyniwyd £620 gan unigolion nad ydynt mwyach yn aelodau o'r Clwb – yn cynnwys 36 taliad o £15 a 10 taliad o lai na £15.

Roedd y taliad i’r CMP yn £20.25 yr aelod tan Ebrill 2022 ac yn £21 wedi hynny. Bydd yn cynyddu i £22.25 ar 1 Ionawr 2023.

Bu dwy daith i’r Alban yn ystod y flwyddyn ond yr unig daliad a wnaed o goffrau’r Clwb oedd blaendal o £91 i un hostel.

’Roedd derbyniadau’r cinio blynyddol yn yr Oakeley Arms, Maentwrog, yn £971 a’r gwariant yn £1240, gwahaniaeth o £269. Y rheswm dros y gwahaniaeth ydi (a) llogi ystafelloedd newid a (b) gwahodd gwesteion i’r cinio.

Llwyddwyd i ad-hawlio treth o £35.15 ar y rhoddion a gafwyd er cof am Gareth Pierce.

Yn ogystal â chostau rhedeg y Clwb (costau banc, gweinyddol a gwefan) sef cyfanswm o £470.87, gwnaed taliadau o £120 at gwrs cymorth cyntaf i aelodau, £150 i ymuno â’r Bartneriaeth Awyr Agored, £500 i ddau dîm achub gafodd eu galw i ddigwyddiadau ar deithiau’r Clwb a phrynwyd ail ddiffibriliwr am £1878. Gyda’r rhodd hael iawn a gafwyd er cof am Gareth Pierce y llynedd, mae diffibriliwr bellach yn cael ei gario ar deithiau’r Clwb yn y gogledd a’r de.

**Cronfeydd**

Mae gan y Clwb £4893.42 yn y banc sy’n cynnwys Cronfa Goffa Gareth Pierce (£881.41) a chronfa gyffredinol o £4012.01. Mae’r gronfa gyffredinol £2745.14 yn is nag oedd ar yr un adeg llynedd.

Mae angen i’r Clwb gadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy’n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.

Dwynwen Pennant
Cadeirydd

(ar ran yr ymddiriedolwyr)

Dyddiad: 19/11/22

**CLWB MYNYDDA CYMRU - adroddiad ariannol 2021/22**
*(Elusen gofrestredig rhif 1190243 )*

| **Derbyniadau** | | £ | £ | *(2020/21)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | Aelodau | 5,740.00 | | *5,500.00* |
| | Caredigion | 620.00 | | *618.00* |
| | | | 6,360.00 | *6,118.00* |
| Teithiau: | Blaendal SYHA | | 91.00 | *1,168.80* |
| Cinio blynyddol 2021 | | | 971.00 | *-* |
| Cronfa goffa Gareth Pierce (ad-daliad treth) | | | 35.15 | *846.26* |
| Incwm arall: | Llog banc | | 1.73 | *0.91* |
| Mewn llaw 1 Hydref 2021: | | | | |
| | Siec mewn llaw | 20.00 | | |
| | Cyfrif cyfredol | 1,552.71 | | *485.77* |
| | Cyfrif cadw | 6,030.70 | | *11,529.79* |
| | | | 7,603.41 | *12,015.56* |
| | | | 15,062.29 | *20,149.53* |

| **Taliadau** | | £ | £ | *(2020/21)* |
|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | | | | |
| | Cyngor Mynydda Prydeinig | | 5,719.00 | *5,474.18* |
| Teithiau: | Ad-daliad blaendal SYHA | | 91.00 | *6,303.00* |
| Cinio blynyddol 2021 | | | 1,240.00 | *-* |
| Gwariant arall: | Costau banc | 52.08 | | |
| | Gweinyddol | 192.00 | | *409.87* |
| | Gwefan | 226.79 | | *199.07* |
| | Cwrs cymorth cyntaf | 120.00 | | *160.00* |
| | Partneriaeth Awyr Agored | 150.00 | | |
| | Prynu diffibriliwr | 1,878.00 | | |
| | Timau achub | 500.00 | | |
| | | | 3,118.87 | |
| Mewn llaw 30 Medi 2022: | | | | |
| | | | | *20.00* |
| | Cyfrif cyfredol | 860.99 | | *1,552.71* |
| | Cyfrif cadw | 4,032.43 | | *6,030.70* |
| | | | 4,893.42 | *7,603.41* |
| | | | 15,062.29 | *20,149.53* |

Dilys Phillips
Trysorydd 21/10/2022

George Jones
Archwiliwr 21/10/2022

**CLWB MYNYDDA CYMRU**

England & Wales - Charity number 1190243

# Accounts

## Clwb Mynydda Cymru

Elusen gofrestredig rhif 1190243

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2020 - 2021

**Cyfansoddiad ac Amcan**

Mae Clwb Mynydda Cymru wedi ei sefydlu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Ei amcan ydi hyrwyddo chwaraeon amatur, sef mynydda, yng Nghymru er budd y cyhoedd, yn arbennig ond nid yn unig trwy ddarparu cyfleon ar gyfer mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymddiriedolwyr**

Yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

Dwynwen Pennant – Cadeirydd
Stephen Williams – Is-gadeirydd
Eryl Owain – Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts – Trysorydd Cynorthwyol
Iona Evans – aelod o'r pwyllgor
Dewi Hughes – aelod o'r pwyllgor
Eirwen Williams – aelod o'r pwyllgor
Raymond Griffiths – aelod o'r pwyllgor
Gareth E Roberts – aelod o'r pwyllgor
Gwyn Williams – aelod o'r pwyllgor

**Llywodraethu**

Yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Pwyllgor sy'n rheoli gweithgareddau'r Clwb.

Yn ogystal â thri chyfarfod arferol y Pwyllgor eleni ym mis Ionawr, Mai a Medi, cafwyd dau gyfarfod arbennig, un ym mis Mawrth i ystyried Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r llall yn nechrau Hydref i roi sylw i nifer o faterion oedd angen sylw brys cyn y Cyfarfod Blynyddol. Rydym wedi parhau â'r drefn o gynnal y cyfarfodydd i gyd drwy gyfrwng Zoom eto eleni.

Yn mis Ionawr a Mai effaith Cofid 19 ynghyd â materion arferol eraill oedd yn mynd â sylw'r Pwyllgor a da oedd gweld erbyn cyfarfod mis Mai bod y sefyllfa'n gwella a gallwyd dechrau llacio rhai o'r cyfyngiadau a roddwyd ar ein teithiau. Fe gynyddwyd y nifer o aelodau allai ddod ar daith o 12 i 15 ym mis Mai ac wedyn i 18 yn ddiweddarach yn ystod yr haf wrth i'r sefyllfa wella. Mae'r Pwyllgor ers mis Medi wedi penderfynu codi'r cyfyngiadau ar y niferodd a ganiateir ar y teithiau.

Ym mis Gorffennaf wynebwyd un o'r digwyddiadau mwyaf ysgytwol pan frawychwyd pawb gan farwolaeth sydyn Gareth Pierce ar daith y Clwb ar Aran Fawddwy. Gwerthfawrogir yn fawr ymdrechion yr aelodau oedd efo Gareth i'w helpu nes i gymorth proffesiynol gyrraedd. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda'r teulu yn eu colled enfawr. Bu teulu Gareth yn ddigon caredig i ddatgan y byddai unrhyw roddion er cof am Gareth yn cael eu rhannu rhwng yr Urdd a'r Clwb. Hyd yma mae'r Clwb wedi derbyn swm o oddeutu £850 ac mae trafodaethau wedi bod gyda'r teulu ynglŷn â sut y dylid defnyddio'r arian yma. Un o'r syniadau dan sylw yw defnyddio'r arian i annog pobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau awyr agored. Syniad arall yw i'r arian fynd tuag at gyhoeddi detholiad o'r cerddi ar fynyddoedd y bu Gareth yn eu casglu dros y blynyddoedd. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Urdd a theulu Gareth ynglŷn â sut i ddefnyddio'r arian yma.

Derbyniodd y pwyllgor hefyd rodd garedig o ddiffibriliwr i'r Clwb gan unigolyn â chysylltiad â Gareth er cof amdano. Yn sgil hynny mae'r Pwyllgor wedi penderfynu archebu ail ddiffibriliwr ar gyfer criw'r De. Y bwriad yw iddynt gael eu cario ar deithiau'r Clwb rhag ofn y cyfyd argyfwng. Bydd Swyddog gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn bresennol yn y Cyfarfod Blynyddol i roi arweiniad ar eu defnyddio.

Un mater fydd angen sylw yn y Cyfarfod Blynyddol yw lefel tâl aelodaeth y Clwb i'r dyfodol. Adroddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref bod y Cyngor Mynydda Prydeinig am godi eu tâl aelodaeth i aelodau clybiau o 1 Ebrill 2022 i £22 ac y byddai'n codi gyda elfen chwyddiant o RPI yn flynyddol wedyn o 1af Ionawr 2023 ymlaen. Yn sgil hyn a'r ffaith bod y Clwb yn wynebu gwariant sylweddol ar brynu diffibriliwr penderfynwyd argymell i'r Cyfarfod Blynyddol fod tâl aelodaeth y Clwb yn codi i £25 o 1 Ionawr 2023. Byddai hyn yn golygu y gallasai'r tâl yma gwrdd â chodiadau i'r taliadau i'r CMP am gyfnod yn hytrach na gorfod ei newid yn rheolaidd a byddai hefyd yn helpu i'r Clwb ail-adeiladu ei falansau yn y tymor byr.

Mae rhywfaint o edrych ymlaen am ddyfodol mwy normal wedi bod ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor. Ar ôl gorfod gohirio y llynedd fe benderfynwyd mentro cynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol unwaith eto eleni yng Ngwesty'r Oakley Arms ym Maentwrog. Penderfynwyd rhoddi'r cyfle i aelodau ymuno â'r cyfarfod drwy gyfrwng Zoom os byddai hynny yn well ganddynt. Yn ogystal cadarnhawyd y bydd y trefniadau i gynnal ein darlith flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn 2022 yn mynd yn eu blaen. Cytunwyd hefyd y dylid edrych ar y posibilrwydd o gynnal taith arferol mis Chwefror i'r Alban flwyddyn nesaf.

Cedwir cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol ac maent i'w gweld ar wefan y Clwb trwy ddilyn y ddolen -
http://www.clwbmynyddacymru.com/Dogfennau.htm

**Recriwtio ymddiriedolwyr**

Y Cyfarfod Blynyddol sydd yn cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ac felly'n penodi'r ymddiriedolwyr. Yn ôl y cyfansoddiad bydd traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf. Mae'n agored i unrhyw aelod gynnig i wasanaethu ar y Pwyllgor drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyn y Cyfarfod Blynyddol.

**Gweithgareddau**

Dechreuodd adroddiad y llynedd trwy nodi mai'r gŵyn arferol yw bod adroddiadau bob tro'n debyg iawn i rai'r blynyddoedd blaenorol ond nad oedd hynny'n wir am 2020. Yn anffodus, nid yw'n wir am 2021 chwaith. Ond, er gwaethaf colli bron i bum mis i'r ail Gloi Mawr, llwyddwyd i gynnal 51 o deithiau rhwng rhai'r de a'r gogledd a chanol wythnos.

Mae hynny'n cymharu'n dda efo niferoedd blynyddoedd 'arferol' – 48 taith yn 2017, 44 yn 2018 a 58 yn 2019. Llawer o ddiolch felly i'r rhai hynny a fu'n barod i drefnu ac arwain taith; y chi, mewn gwirionedd, yw'r bobl bwysicaf yn y clwb gan na fyddai gweithgareddau heb eich ymroddiad chi. Ac, yn wyneb y trafferthion cofidaidd, mae angen diolch ychwanegol i chi am fod yn hyblyg a bod yn barod i gydymffurfio â'r amrywiol reoliadau.

Gorfodwyd y clwb i gyfyngu ar niferoedd am gyfnod ac felly trefnwyd, yn aml, fwy nac un taith ar yr un diwrnod neu'r un penwythnos. Roedd cyfle felly i drefnu dwy daith mewn gwahanol ardaloedd neu deithiau oedd yn amrywio o ran hyd neu natur y daith. Profodd hynny'n llwyddiannus gan fod mwy o ddewis i'n haelodau. Pan nad oedd angen cyfyngu ar niferoedd, penderfynwyd dal ati i gynnig yr un amrywiaeth trwy gynnig, yn y gogledd, taith bob penwythnos. Cawn weld a fydd digon o arweinwyr i barhau i wneud hynny.

Mae croeso arbennig i rai sydd heb arwain o'r blaen i gynnig eu hunain. Mae'n brofiad braf gallu cyflwyno cyd-aelodau – ffrindiau'n wir – i un o'ch hoff deithiau ac mae pawb sydd wedi arwain yn gwybod nad ydi arweinydd ar ei ben ei hun; mae pawb yn fwy na pharod i rannu'r cyfrifoldeb ac i gynorthwyo. Ac mae prawf o hynny yn y modd y cydweithiodd pawb mor ragorol i wneud popeth a allent ar y diwrnod trist hwnnw pan gollon ni Gareth, un o'n haelodau mwyaf ffyddlon a brwdfrydig.

Mae rhai aelodau'n mwynhau teithiau mynydd cymedrol ond eraill eisiau teithiau hirach a mwy heriol neu eisiau mwy o sgrialu. Un nodwedd o'r flwyddyn neu ddwy ddiwethaf yw fod amryw o aelodau newydd, llawer ohonynt yn iau na nifer ohonom ni, yr hen do, wedi troi allan yn rheolaidd. Efallai bod yr elfen fwy heriol yn help i'w denu.

Cafwyd ymateb da i gwrs Cymorth Cyntaf a gynhaliwyd yn Llangors ac mae nifer ychwanegol wedi sicrhau cymhwyster yn y maes hwnnw.

Byddwn bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth.

## Cyfathrebu a chysylltu

Bu'r wefan yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau (a darganfod aelodau newydd), yn enwedig pan oedd angen diweddaru gwybodaeth am deithiau – weithiau ar y funud olaf. Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal a porwyr ar bob math o gyfrifiaduron.

Bellach, mae dros 8,100 o luniau o hanesion y teithiau yn ôl i 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr. Gall aelodau lawrlwytho y rhain ar gyfer defnydd personol.

Cofnodir manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb gan Google Analytics. Golyga hyn fod gennym wybodaeth hynod o gyflawn o sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio, gyda dadansoddiad manwl o'r defnyddwyr (ond dim manylion personol ar gael) gan gynnwys yr offer a ddefnyddir.

Ers Tachwedd 2020, bu 41,034 ymweliad â'r wefan gan 4,696 o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn, ond yn dawelach yn ystod y cyfnod clo a phegynau pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb.

Cofied fod tudalen Newyddion ar y wefan ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau. Cyhoeddwyd teyrngedau i ddau o aelodau'r clwb ers ei sylfaenu, a fu farw yn ystod y flwyddyn, sef Gareth Pierce a Dafydd Prydderch Williams.

Mae ein cyfrifon Gweplyfr (Facebook), Trydar (Twitter) ag Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Cyhoeddir pob gweithgaredd – ynghyd â dolen i unrhyw adroddiad ar y wefan – ar y Gweplyfr. Gall unigolion ychwanegu eu lluniau neu sylwadau eu hunain at rhain, yn ogystal â'r cyfrifion Trydar ag Instagram.

Oherwydd cymorth gan Rhys Jones, Waunfawr, (a diolch arbennig iddo) darparwyd "ap" ar gyfer systemau iOS ac Android (ffonau clyfar a llechi) sy'n cysylltu'n uniongyrchol a rhwydd â thudalennau gwefan y Clwb. Gellir lawr lwytho'r "ap" o safleoedd "apiau" iOS ac Android – cyfarwyddiadau ar y wefan.

Diolch i bawb a gyfrannodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn. Mae'n gofnod arbennig o'n gweithgareddau. Daliwch ati!

## Cyllid

Mae sefyllfa ariannol y Clwb yn parhau'n iach.

Y prif ffynhonnell incwm ydi'r tanysgrifiadau. Yn ystod y flwyddyn 'roedd gan y Clwb 275 aelod yn talu £20 yr un (£5500). Yn ogystal derbyniwyd £618 gan unigolion nad ydynt mwyach yn aelodau o'r Clwb – yn cynnwys 31 taliad o £15, 8 taliad llai na £15 a nifer o daliadau gan unigolion sy'n anhysbys.

Mae’r taliad i’r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £20.25 yr aelod. Bydd hwn yn cynyddu yn ystod 2022. Bydd angen felly ail-ystyried y tâl aelodaeth at 2023.

Ni threfnwyd unrhyw daith breswyl yn ystod y flwyddyn. Cafodd dwy daith oedd wedi eu gohirio o 2019 eu canslo; cafwyd y blaendal yn ôl gan y darparwyr llety a rhoddwyd ad-daliad llawn i bob aelod oedd wedi archebu lle arnynt.

Derbyniwyd rhoddion o £846.26 er cof am Gareth Pierce, trwy garedigrwydd ei deulu yn enwebu’r Clwb ar y cyd ag Urdd Gobaith Cymru.

Costau rhedeg arferol y Clwb ydi’r costau gweinyddol a chostau’r wefan sy’n dod i gyfanswm o £608.94 ar gyfer 2020-21. Hefyd gwnaed cyfraniad o £20 y pen (sef £160) tuag at gwrs cymorth cyntaf i aelodau.

**Cronfeydd**

Ar ddiwedd y flwyddyn ‘roedd gan y Clwb £7603.41 yn y banc sy’n cynnwys cronfa goffa Gareth Pierce (£846.26) a chronfa gyffredinol o £6757.15. Mae’r gronfa gyffredinol £124.21 yn is nag oedd ar yr un adeg llynedd.

Mae angen cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy’n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.

Dwynwen Pennant
Cadeirydd

(ar ran yr ymddiriedolwyr)

Dyddiad: 13/11/21

**CLWB MYNYDDA CYMRU (*elusen gofrestredig rhif 1190243*) – datganiad o'r cyfrifon 2020/21**

| **Derbyniadau** | | £ | £ |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | Aelodau | 5,500.00 | |
| | Caredigion | 618.00 | |
| | | | 6,118.00 |
| Teithiau: | Hawes (ad-daliad blaendal) | 563.80 | |
| | Glenshiel (ad-daliad blaendal) | 605.00 | |
| | | | 1,168.80 |
| Cronfa goffa Gareth Pierce | | | 846.26 |
| Incwm arall: | Llog banc | | 0.91 |
| Mewn llaw 1 Hydref 2020: | | | |
| | Cyfrif cyfredol | 485.77 | |
| | Cyfrif cadw | 11,529.79 | |
| | | | 12,015.56 |
| | | | 20,149.53 |

| **Taliadau** | | £ | £ |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth: | | | |
| | Cyngor Mynydda Prydeinig | | 5,474.18 |
| Teithiau: | Hawes (ad-dalu'r aelodau) | 3,423.00 | |
| | Glenshiel (ad-dalu'r aelodau) | 2,880.00 | |
| | | | 6,303.00 |
| Gwariant arall: | Gweinyddol | 409.87 | |
| | Gwefan | 199.07 | |
| | Cwrs cymorth cyntaf | 160.00 | |
| | | | 768.94 |
| Mewn llaw 30 Medi 2021: | | | |
| | Siec mewn llaw | 20.00 | |
| | Cyfrif cyfredol | 1,552.71 | |
| | Cyfrif cadw | 6,030.70 | |
| | | | 7,603.41 |
| | | | 20,149.53 |

Dilys Phillips
Trysorydd
5/10/21

George Jones
Archwiliwr
5/10/21